

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Morfydd Roberts (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Yno hefyd y cafodd Mary Williams (Llanfair) lawdriniaeth yr wythnos ddiwethaf. Da yw deall bod Mary, a Nesta W. Davies (Cefn Meiriadog) oedd yn Ysbyty Gobowen, wedi cael dod adref. Hyderwn y bydd y tair yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau yn fuan iawn. Cofiw'n hefyd am Ifan Batty (Llansannan) sydd wedi cael anffawd ac wedi torri asgwrn. Adferiad llwyr a buan i tithau Ifan! Mae eraill o'r Ofalaeth ar ein meddyliau yn ddyddiol hefyd, a chyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn profi Duw yn ddigon iddynt y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i bawb o'r Fro fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yr wythnos hon!

I ddo

- **Adnabod DAWN** - y sesiynau dilynol yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol ar Mehefin 19eg, Gorffennaf 3ydd a'r 17eg.
- **Cwrs Ieuenctid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 30ain - Awst 3ydd. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Anrhefn Awst (8-12 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 13eg – 16eg. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Souled Out (15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc)** yng Ngholeg y Bala, Awst 18fed – 24ain. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.

Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau uchod yng Ngholeg y Bala. (Os bydd y coffrau'n caniatáu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau (870632).

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Mehefin 2012

Ceisiadau gweddi i Hafwen (813445)
neu Celfyn (550274) erbyn nos
Fawrth, os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso cynnes i bawb i'n hoedfaon heddiw. Tybed faint ohonoch wnaeth fwynhau ychydig o uchafbwyntiau'r Eisteddfod, neu fynd am dro i Llynllifon? Llongyfarchiadau mawr i'r rhai o'r Fro a fu'n cymryd rhan, dim ond gobeithio na fu'n rhaid i chi dreulio gormod o amser yn sownd mewn ciw, neu'n sownd mewn mwd ar y maes!

Er nad yw'r tywydd yn adlewyrchu hynny, yn ddiweddar mae nifer o bobl wedi mynegi pryder ynglŷn â diffyg dŵr a'r effeithiau niweidiol y gall hynny ei gael ar fywyd. Wrth gwrs, mae cael cyflenwad cyson o ddŵr yn angenrheidiol ar gyfer cymaint o dasgau gwahanol nes bod diogelu digon ohono ar ein cyfer yn allweddol. Sylweddolais hynny wrth i mi fynd i lawr i ardal Cei Newydd yn ddiweddar. Cyn i mi gyrraedd pen fy nhaith, daeth yn amlwg bod problem gyda'r car – roedd yr injan yn gorboethi gan fod y tanc dŵr yn wag! Llenwais y tanc cyn parhau â'm taith heb feddwl llawer mwy am y peth. Erbyn yr wythnos hon, roedd y tanc yn hanner gwag unwaith yn rhagor – o diar! Beth i'w wneud – ail lenwi a gobeithio am y gorau? Er mai dyna yw'r ateb tymor byr i'r broblem gyda'r car, yn y pen draw dwi'n gwybod nad yw hynny wir yn datrys y broblem, ac y bydd rhaid mynd at arbenigwr i ddelio'n iawn â'r diffyg.

Tybed sut ydym ni'n delio â phroblemau a diffygion yn ein bywydau ni? Ceisio gwneud rhywbeth sydyn i wella'r sefyllfa dros y tymor byr efallai? Fel y mae hi gyda mi a'm car, rhaid i ninnau hefyd gyfaddef fod yn rhaid i ni fynd at arbenigwr os am gael datrys ein diffygion go iawn. Yr Arglwydd Iesu yw'r arbenigwr, yr unig un sy'n gyflawn ddyn ac yn gyflawn Dduw, ac ynddo Ef cawn dderbyn popeth sydd ei angen arnom, a mwy. Nid yn unig cawn ateb i'n problemau, cawn hefyd fesur di ben draw o gariad, maddeuant a llawenydd heb i ni haeddu dim ohono. Dyna ryfeddod! Pan ydym yn dod wyneb yn wyneb ag anhawster yn ein bywyd, ac yn ceisio gwybod beth i'w wneud nesaf, cofiwch beth ddywedodd Iesu wrth y wraig o Samaria oedd yn ceisio torri ei syched wrth y ffynnon: “Bydd pawb sy'n yfed o'r dŵr hwn yn profi syched eto; ond pwy bynnag sy'n yfed o'r dŵr a roddaf fi iddo, ni bydd arno syched byth. Bydd y dŵr a roddaf iddo yn troi yn ffynnon o ddŵr o'i fewn yn ffrydio i fywyd tragwyddol.” (Ioan 4:13-14)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma
- **Cymanfa Ganu** yr Annibynwyr (oedolion a phlant) yng Nghapel Bethel, Stryd Newydd, Yr Wyddgrug am 2.30. Arweinydd: Iona Jones, Llansilin. Croeso cynnes i bawb.
 - Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun
- **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
 - **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. Sgwrs gan Margaret Lake ar "...a bydd y deillion yn gweld" a swper i ddilyn am £3.00. Cysylltwch â Mair os ydych am gyd-deithio.
- Mawrth
Mercher
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
 - **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin a Rhodri** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
 - Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
 - Cyfarfod o **Gymdeithas Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Waungoleogoed am 7.00 yng nghwmni Mrs Medwen Roberts, Graigfechan sy'n gynhyrchydd rhaglenni teledu fel y rhaglen "O'r Galon". Ceir yno hefyd stondin 'Dewch a Phrynwch'. Croeso i bawb.
- Gwener-
Sadwrn
- **Diwrnod Genod (16+)** yng Ngholeg y Bala (nos Wener a/neu dydd Sadwrn). Cyfle i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu. Cofiwch bod angen archebu lle ymlaen llaw. Mwy o fanylion a ffurflen archebu gan Angharad Clwyd: (01678) 520565.
- Sul nesaf
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
 - **Cymanfa Ganu** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 8.00. Arweinydd: Arwyn Roberts, eitemau gan Gôr Meibion Dinbych. Dewch â Detholiad hefo chi.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Ar derfyn yr oedfa bydd y plant a'r oedolion yn cyflwyno'r gwaith llafar. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00. Bydd aelodau Capel Peniel yn mynd ar bererindod i gyfeiriad Llanrhaeadr ym Mochnant.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 10.00. Bydd plant Ysgol Sul Saron yn mynd ar drip i Gelli Gyffwrdd.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd aelodau Capel Henllan yn mynd ar bererindod i Dŷ Mawr Wybrnant yn dilyn cinio yn Elen's Castle Hotel, Dolwyddelan. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Henllan.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00, a bydd Cinio Cynnil yn Llanefydd i gasglu arian at apêl Guatamala. Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.